

## Refferendwm yr UE Diweddariad ymgyrchwyr rhif 6

Chwefror 2016

---

### Ymunwch â'n rhestr diweddariadau

Gallwch gofrestru i dderbyn y  
diweddariadau hyn ar ein  
[gwefan](#) neu drwy ffonio 0333  
103 1929

Mae'r llywodraeth wedi  
cyhoeddi y bydd y  
refferendwm ar aelodaeth y  
DU o'r UE yn cael ei gynnal  
ar 23 Mehefin 2016.

Rydym yn rheoleiddio cyllid  
a gwariant gwleidyddol.  
Rydym yn cofrestru  
ymgyrchwyr ac yn  
rheoleiddio eu gwariant a'u  
rhoddion mewn refferenda.

Ein hamcan yw sicrhau  
hygrededd a thryloywder  
cyllid a gwariant ymgyrchu  
ar gyfer pleidleiswyr.

Byddwn yn parhau i  
gyhoeddi diweddariadau,  
darparu canllawiau  
ychwanegol ar gyfer  
ymgyrchwyr ar unrhyw  
newidiadau i'r rheolau, arfer  
gorau ar gyfer ymgyrchwyr  
a dyddiad allweddol.

## Ynghylch y diweddariad hwn

Mae'r diweddariad hwn yn cynnwys:

- dyddiadau allweddol y refferendwm
- gwasanaeth cyngor a chanllawiau
- cyfnod y refferendwm ac etholiadau mis Mai
- cyfyngiadau ar gyfrif cyhoeddus yn y refferendwm

## Dyddiadau allweddol

Ar 20 Chwefror, cyhoeddodd y Prif Weinidog mai dyddiad arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfer refferendwm ar gyfer aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd yw 23 Mehefin 2016. Bydd angen trafod a chymeradwyo rheoliadau gan Senedd y DU cyn i ddyddiad y bleidlais gael ei gadarnhau.

Cyfnod arfaethedig y refferendwm:

Cychwyn cyfnod y refferendwm	15 Ebrill
Diwrnod pleidleisio	23 Mehefin

Y cyfnod dynodi arfaethedig:

Y cyfnod ymgeisio yn cychwyn	4 Mawrth
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau	31 Mawrth
Penderfyniad dynodi	14 Ebrill

Y dyddiadau adrodd cyn y bleidlais arfaethedig:

Cyfnod adrodd	Dyddiad cau ar gyfer adroddiadau cyn y bleidlais
1 Chwefror - 21 Ebrill	28 Ebrill
22 Ebrill - 12 Mai	19 Mai
13 Mai - 9 Mehefin	16 Mehefin
10 Mehefin - 22 Mehefin	29 Mehefin

Yn dilyn cyhoeddi'r dyddiad arfaethedig, rydym wedi cyhoeddi datganiad ar asesiad parodrwydd y Comisiwn Etholiadol ar gyfer darparu'r bleidlais [yma](#).

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar ein [gwefan](#) cyn hir yn cynnwys:

- amserlenni a dyddiadau cau
- rheoli gwariant
- rheolau ar gyfer cydweithio gydag ymgyrchwyr refferendwm eraill
- adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE
- cyfyngiadau ar gyfrif cyhoeddus yn y cyfnod cyn y refferendwm

## Gwasanaeth cyngor a chanllawiau

Gallwch ddod o hyd i'n canllawiau ar gyfer refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE ar y dudalen [hon](#).

Ry'n ni wastad yn hapus i roi cyngor i ymgyrchwyr ar sut i gydymffurfio â'r rheolau.

Ffoniwch ni ar 0333 103 1928E-bost:  
[pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)

Neu gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost isod.

- Lloegr a Gibraltar:  
[pef@electoralcommission.org.uk](mailto:pef@electoralcommission.org.uk)
- Yr Alban:  
[infoscotland@electoralcommission.org.uk](mailto:infoscotland@electoralcommission.org.uk)
- Cymru: 0333 103 1929  
[gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk)
- Gogledd Iwerddon:  
[infonorthernireland@electoralcommission.org.uk](mailto:infonorthernireland@electoralcommission.org.uk)

## Cyfnod y refferendwm a chyfnod a reoleiddir etholiadau mis Mai 2016

Mae'r cyfnod refferendwm arfaethedig yn cychwyn ar 15 Ebrill cyn dod i ben ar 23 Mehefin 2016. Cychwynnodd y cyfnod a reoleiddir ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a phleidiau gwleidyddol sy'n ymgyrchu yn yr etholiadau canlynol ar 5 Ionawr ac mae'n dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, 5 Mai 2016:

- Etholiadau Senedd yr Alban
- Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru
- Etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon

Mae hyn yn golygu bod cyfnod lle mae'r cyfnod a reoleiddir a chyfnod y refferendwm yn gorgyffwrdd o 15 Ebrill nes 5 Mai 2016.

Mae gwariant ymgyrchu yn Refferendwm yr UE a gwariant

ymgyrchu ar gyfer etholiadau Mai 2016 wedi eu rheoleiddio o dan reolau gwahanol. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau fydd yn esbonio sut i gofnodi ac adrodd gwariant yn y cyfnod sy'n gorgyffwrdd. Gallwch hefyd ein ffonio ni neu e-bostio am gyngor.

## Cyfyngiadau ar gyrrff cyhoeddus yn y cyfnod cyn y refferendwm

O dan PPERA, mae cyfyngiadau ar y deunyddiau gall gweinidogion y DU a Llywodraethau datganoledig, adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrrff penodol sy'n derbyn cronfeydd cyhoeddus gyhoeddi ynghylch y refferendwm rhwng 27 Mai a 23 Mehefin 2016, y diwrnod pleidleisio.

Mae'r cyfyngiadau yn berthnasol ar gyfer unrhyw ddeunydd, sydd ar gael i'r cyhoedd, mew unrhyw ffurf, a thrwy ba bynnag ffordd, sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol ynghylch y refferendwm yn ogystal â'r materion a'r dadleuon dros neu yn erbyn nod y DU yn aros neu'n gadael yr UE. Mae'r cyfyngiadau hefyd yn berthnasol i ddeunyddiau a ddyluniwyd i annog pobl i bleidleisio.

Rydym wedi cynhyrchu taflen ffeithiau sy'n esbonio'r cyfyngiadau, a ble allwch gael mwy o wybodaeth. Mae ar gael yma: [Cyrff a gyllid yn gyhoeddus a'r refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE](#).

## Gwybodaeth arall am y refferendwm

Ar ein gwefan:

[www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk),

gallwch ddod o hyd i:

- mwy o wybodaeth am ein rôl mewn refferenda
- ein prif egwyddorion ar gyfer rhedeg refferenda
- ein hymdriniaeth o ran asesu cwestiynau refferendwm
- ein canfyddiadau ar gwestiwn y refferendwm
- briffiau ar y Bil yn esbonio ein safbwynt ar ddarpariaethau lle bo'n briodol